

Cylchffordd Cymru

28 Ebrill 2014

Yn dilyn fy e-bost dyddiedig 9 Ebrill 2014, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais a eglurwyd am wybodaeth dyddiedig 9 Ebrill 2014, a oedd yn gofyn am:

copi o'r adroddiad diwydrwydd dyladwy, fel y'i gelwir, a luniwyd gan Grant Thornton

Rwy'n atal yr adroddiad am y rhesymau canlynol:

- a) Byddai datgelu'r adroddiad yn niweidio buddiannau masnachol Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd. Mae hynny oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn dadlennu gwybodaeth ariannol a chynigion datblygu busnes masnachol sensitif a fyddai'n rhoi mantais fasnachol i ddarpar gystadleuwyr pe bai'r adroddiad yn cael ei ddatgelu. Felly, cwmpesir y wybodaeth gan yr esemptiad a ddarperir gan adran 43(2) (buddiannau masnachol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae datgelu gwybodaeth am arian sy'n cael ei wario gan Lywodraeth Cymru o fudd i'r cyhoedd am resymau'n ymwneud â thryloywder a bod yn agored. Fodd bynnag, ni ddylai cwmnïau sy'n derbyn arian cyhoeddus, ac yn enwedig (fel yn yr achos hwn) cwmnïau sy'n ceisio creu nifer sylweddol o swyddi yng Nghymru, boeni y byddant o dan anfantais gystadleuol yn sgil datgelu cynamserol gwybodaeth a fydd yn niweidio eu buddiannau masnachol. Credaf y byddai datgelu'r adroddiad hwn o fudd i ddarpar gystadleuwyr, ac na fyddai er budd y cyhoedd i gynorthwyo cystadleuwyr i fod â mantais annheg. Prosiect byw yw hwn, ac at hynny byddai datgelu gwybodaeth yn gynamserol yn arbennig o sensitif. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad a ddarperir gan adran 43(2).
- b) Byddai datgelu'r adroddiad yn niweidio buddiannau masnachol Grant Thornton. Mae hynny oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn dadlennu dulliau gweithio manwl Grant Thornton, sy'n fasnachol gyfrinachol. Felly, cwmpesir y wybodaeth gan yr esemptiad a ddarperir gan adran 43(2) (buddiannau masnachol) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Gallai datgelu gwybodaeth o'r fath fod yn fasnachol anfantaisiol i Grant Thornton yn y dyfodol, ac ni fyddai er budd y cyhoedd i gynorthwyo cystadleuwyr i fod â mantais annheg wrth gyflwyno ceisiadau am waith. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad a ddarperir gan adran 43(2).
- c) Byddai datgelu'r adroddiad yn niweidio'r gallu i gynnal busnes cyhoeddus yn effeithiol, felly cwmpesir y wybodaeth gan yr esemptiad a ddarperir gan adran 36(2)(c) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Cawsom gopi o'r adroddiad gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i ohebiaeth gan Aelod Cynulliad. Ym mis Chwefror 2014, gwrthododd Llywodraeth Cymru gais am yr adroddiad hwn, fel y nodir ar ei blog datgelu <http://wales.gov.uk/about/foi/responses/dl2014/janmar/culture/atish8132/?lang=en> Er bod budd cyhoeddus mewn prosiectau sy'n ymwneud â gwario arian cyhoeddus, gallai datgelu'r adroddiad hwn beryglu ein perthynas â Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid i ni gael perthynas waith effeithiol â hi. Ni fyddai er budd y cyhoedd i niweidio'r berthynas hon drwy ddatgelu adroddiad a gawsom gan Lywodraeth Cymru ac sydd wedi'i atal rhag ei ddatgelu ganddi yn ddiweddar. Yn ogystal, gallai datgelu'r adroddiad hwn gael effaith niweidiol ar ein gallu i gael gafael ar ddogfennau yn wirfoddol er mwyn ymateb i ohebiaeth. Nid yw er budd y cyhoedd i niweidio ein gallu i ymateb i ohebiaeth mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Felly, ar ôl pwyso a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad a ddarperir gan adran 36(2)(c).
- d) Byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidio swyddogaethau archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae hynny oherwydd byddai datgelu'r wybodaeth yn niweidio'r berthynas waith effeithiol rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Llywodraeth Cymru. Mae angen perthynas waith

effeithiol er mwyn cynnal prosesau archwilio effeithiol ac effeithlon. Felly, cwmpesir y wybodaeth gan yr esemptiad a ddarperir gan adran 33 (swyddogaethau archwilio) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae yna fudd cyhoeddus mewn prosiectau sy'n ymwneud â gwario arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â chynnal archwiliad cyhoeddus effeithlon ac effeithiol, ac osgoi niwed posibl i'r berthynas honno fel y byddai'n digwydd drwy ddatgelu'r wybodaeth, yn fwy na'r budd i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â'i datgelu. Felly, ar ôl pwysu a mesur y dadleuon er budd y cyhoedd, rwyf wedi penderfynu y dylid cadw'r esemptiad a ddarperir gan adran 33.

Os bydd gennych unrhyw gŵyn am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf neu ysgrifennwch ataf.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan yr adran honno cewch ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth benderfynu a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r Ddeddf. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
email : casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Fodd bynnag, dylech nodi y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl i chi ddilyn pob cam o dan ein gweithdrefnau cwyno mewnol ni cyn gwneud cais o'r fath. Gallwch gael rhagor o ganllawiau ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth yn <http://www.informationcommissioner.gov.uk>.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir

Ian Phillips